# BE THE WAVE
# AR FRIG Y DON

# Trefnu Ymgyrch Glanhau




cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

MARINE CONSERVATION SOCIETY

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

## Trefnu Ymgyrch Glanhau #arfrigydon

Er bod angen i ni ganolbwyntio ar atal pobl rhag taflu sbwriel yn y lle cyntaf, gall ymgyrch glanhau fod yn ffordd wych o gael eich gweld yn y gymuned a mwynhau amser yn yr awyr agored. Gall hefyd fod yn ffordd ddefnyddiol o archwilio problemau sbwriel, gan y gallwch gasglu tystiolaeth ar gyfer ymgyrchoedd a phenderfynu a yw ymgyrch rydych chi'n ymwneud ag ef eisoes yn gweithio.

Cofiwch – mae pob darn o sbwriel sy'n cael ei gasglu yn golygu y bydd llai o sbwriel yn y môr yn y pen draw.

Mae cymryd rhan mewn ymgyrch glanhau yn dod â llawer o fuddion i bobl ifanc, mae'r digwyddiadau hyn nid yn unig yn hwyl ac yn werthfawr, ond maent hefyd yn cynnig cyfle i wneud gwahaniaeth i'w hardal leol a'r byd maent yn byw ynddo. Gall ymgyrch glanhau helpu hefyd gydag iechyd meddwl a lles drwy eich cadw'n egnïol a chysylltu â phobl eraill yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth amgylcheddol. Mae'n ffordd wych o helpu'ch ysgol neu'ch grŵp gyrraedd eu nodau cynaliadwy yn ogystal â defnyddio ardaloedd agored ar gyfer dysgu. Drwy wella'u hamgylchedd lleol, bydd pobl ifanc yn datblygu cyfrifoldeb cymdeithasol ac ymwybyddiaeth am sut i gymryd camau gweithredu personol.

## Cysylltu â'r Cwricwlwm Ysgol

Mae trefnu a hyrwyddo ymgyrch glanhau yn ogystal â chasglu a dadansoddi data yn sgiliau y gellir eu cysylltu â'r cwricwlwm ysgol.

Mae'n gyfle gwych i gynnal prosiect traws cwricwlaidd. Er enghraifft, gall disgyblion ddechrau drwy ddysgu gwybodaeth yn eu gwersi daearyddiaeth, gellir ysgrifennu a dadansoddi technegau arolygon yn y gwersi gwyddoniaeth, gellir cyflwyno data mewn gwersi TGCh a dadansoddi data mewn gwersi mathemateg. Yna gellir dod â'r prosiect i ben gyda thrafodaeth ar ymddygiad cymdeithasol a sut y gall symudiad gwleidyddol wneud newid cadarnhaol i'n hamgylchedd. Bydd hyn yn arwain at ddatblygu sgiliau sydd wedi'u nodi yn y fframwaith llythrennedd a rhifedd a'r fframwaith cymhwysedd digidol. Yn ogystal â hyn, gall disgyblion ddatblygu agweddau o'r 4 diben craidd.

## Pethau i'w Cofio

Bydd angen y cyfarpar cywir arnoch i gynnal digwyddiad yn llwyddiannus ac yn ddiogel. Bydd eitemau fel siacedi llachar, neu ddillad llachar yn sicrhau y bydd yn hawdd gweld eich disgyblion ac yn helpu i'r grŵp deimlo fel tîm. Bydd hefyd angen esgidiau addas ac wrth gwrs, codwyr sbwriel, cylchynau sbwriel (sydd yn hanfodol i gadw eich bagiau ar agor os oes gwynt!)a bagiau.

Ystyriwch y peryglon, diogelwch yw'r peth mwyaf pwysig i'w ystyried wrth gynllunio ymgyrch glanhau. Os ydych yn bwriadu cynnal ymgyrch glanhau y tu allan i diroedd eich ysgol, dylech ymweld â'r safle a chynnal asesiad risg llawn cyn dechrau.

Cyn eich ymgyrch glanhau, sicrhewch fod disgyblion yn deall pa eitemau y gall fod yn beryglus ac na ddylid eu codi o dan unrhyw amgylchiadau (gwydr wedi torri, sbwriel yn ymwneud â chyffuriau, bio-beryglon ac ati). Dysgwch y disgyblion i ofyn i athro cyn codi darn o sbwriel os oes unrhyw amheuon ganddynt.

**Pwy all helpu?**

Mae gan fudiadau amgylcheddol megis Cadwch Gymru'n Daclus a'r Gymdeithas Gadwraeth Forol a Surfers Against Sewage wybodaeth a chyngor gwych ar eu gwefannau i helpu i gynllunio a hyrwyddo digwyddiadau ymgyrch glanhau. Cewch wahoddiadau i fynychu amrywiaeth o ymgyrchoedd glanhau yn ogystal â dolenni i fudiadau lleol a gweithgareddau grŵp.

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad i grwpiau ac unigolion gynnal ymgyrchoedd glanhau, gan weithio gyda nifer o bartneriaid i wneud hyn yn gynaliadwy. Edrychwch ar yr wybodaeth ddefnyddiol ar Dudalen Gweithredu Cymunedol sydd hefyd yn cynnwys manylion hybiau ymgyrch glanhau lle gellir benthyg offer ar gyfer digwyddiad yn ogystal ag arweiniad o'r hyn y dylech ei wneud a sut i gynnal digwyddiad yn ddiogel. Mae adnodd Ymgyrch Glanhau Mawr Ysgolion ar gael hefyd ar gyfer ysgolion.

Mae gan y Gymdeithas Gadwraeth Forol adnoddau ar gyfer ysgolion uwchradd sy'n cefnogi dysgu am faterion sbwriel morol ac maent yn cynnig llawer o wybodaeth yn eu hadran hwyl a dysgu.

Mae gan Surfers Against Sewage wybodaeth am gynnal ymgyrchoedd glanhau ac maent hyd yn oed yn awgrymu ymgyrchoedd bach glanhau traethau os yw'n haws i'ch ysgol wneud hyn.

Cofiwch nid oes angen i weithredoedd gymryd gormod o amser. Mae'r 2 Minute Foundation yn hyrwyddo'r syniad o lanhau ein planed am 2 funud ar y tro. Gwyliwch y fideo lle gewch eich annog i gymryd rhan mewn ymgyrch glanhau traeth mewn 2 funud bob tro yr ydych yn ymweld â thraeth.

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13